

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 8 Chwefror 24, 2022 50c.

## WCRÁIN A RWSIA - GWRTHDARO CRISTNOGOL

*Fe ddigwyddodd y rhwyg fawr gyntaf ymhlith Cristnogion yn y flwyddyn 1054, pan ymrannodd Eglwys Uniongred y Dwyrain oddi wrth yr Eglwys Babyddol. Roedd hyn oherwydd anghydweld diwinyddol a gwleidyddol.*

Mae gan yr Eglwys Uniongred drefn ddatganoledig gyda'r Patriarch yng Nghaer Cystennin (Istanbul) yn cael ei gydnabod fel 'y cyntaf ymhlith y cyfartal' gan yr 14 o eglwysi annibynnol, sydd mewn cymunedeb â'i gilydd ac sydd â chyfanswm o 270 miliwn o aelodau.



### Dwy Eglwys Uniongred Wcráin

Mae 71% o bobl Rwsia a 78% o bobl Wcráin yn ystyried eu hunain yn Gristnogion Uniongred. Hyd at yn ddiweddar, roeddent i gyd yn perthyn i Eglwys Uniongred Wcráin – Patriarchaeth Moscow. Ond ers tro byd bu ymdrechion i sefydlu eglwys Uniongred annibynnol yn Wcráin, a fyddai'n annibynnol o ddylanwad a rheolaeth eglwysig Rwsia. Yn 2018, fe lwyddwyd i wneud hynny, a sefydlu Eglwys Uniongred

Wcráin. Cafodd yr eglwys newydd ei chydabod yn swyddogol gan Bartholomew I, Patriarch Caergystennin. 'Mae pobl Wcráin wedi bod yn disgwyl am y diwrnod hwn ers saith canrif,' meddai. Sefydlwyd Metropolitan Epiphanius I, sy'n 43 oed, yn batriarch yr eglwys newydd.

### Gwyltuo Putin

Fe wnaeth hyn wylltuo'r Arlywydd Putin, sy'n ystyried sefydlu'r eglwys newydd yn ymosodiad ar 'undod ysbrydol' pobl y ddwy wlad. Mae Putin yn mynnu mai un genedl yw pobl Rwsia, Wcráin a Belarws – cenedl hynafol y Rus. A thra'i fod yn cydnabod hawl Wcráin i fodoli fel gwladwriaeth, mae'n cyhuddo'r arweinwyr o greu math newydd o genedlaetholdeb, sy'n ymwrthod â'u gwreiddiau, ac yn troi'r Wcráin yn 'buffer state' rhwng Rwsia a gweddill gwledydd Ewrop. Mae Putin yn honni bod creu eglwys annibynnol yn rhan o'r prosiect hwnnw.

### Tyndra anferth

Ar y llaw arall, mae Eglwys Uniongred Wcráin yn cyhuddo Rwsia o geisio gorfodi trefn imperialaidd arnynt. Fel cenedl ar wahân sydd â diwylliant unigryw, mae angen eglwys annibynnol ar eu gwlad, meddent. Mae'n amlwg bod y gwrthdaro crefyddol yma wedi ychwanegu at y tyndra anferth rhwng y ddwy wlad, ac yn wir rhwng Rwsia a gwledydd y gorllewin.

Alun Lenny

## CAU'R CAPEL OND YR ACHOS YN PARHAU

*Cafodd capel yr Annibynwyr ym Mhenygroes, Sir Gaerfyrddin, ei gau a'i werthu i ddatblygwr fflatiau. Ond mae'r achos yn parhau, gydag arian sylweddol wedi cael ei wario ar droi'r festri yn lle diddig gyda chyfleusterau cyfoes i gynnal oedfaon a chyfarfodydd eraill. Dyma'r hanes gan SIÂN THOMAS.*

Cloi, ond nid cau. Dyna hanes eglwys yr Annibynwyr ym Mhenygroes, 1825-2022. Dywed yr hen ddihareb am y mis bach, Chwefror, 'Byr ei ddyddiau, hir ei gystudd. Gwir y gair o weld drysau capel mwyaf pentre Penygroes yn cau am y tro olaf. Dim ond tair blynedd yn fyr o'i 200 mlwydd oed.

### Hanes yr achos

Wedi penderfyniad eglwys Annibynnol tref Rhydaman i ledaenu i'r gorllewin fe roddodd John Jenkins, Lanlsh ddarn o dir i'r achos i adeiladu capel. Dyma



*Olive Davies, diacones, yn cloi drws y capel am y tro olaf.*

ddechrau'r achos yn y pentref yn 1825. Enw'r tir ar groesffordd Llandybïe, Llanelli a Chapel Hendre, oedd Pentre Siencyn. Ond wrth ei rhoi i adeiladu, yr oedd John Jenkins (sef Siencyn) yn awyddus iawn i'w fab, a oedd newydd hyfforddi fel gweinidog, i ymgymryd â'r

ofalaeth. Yr oedd Thomas Jenkins newydd dderbyn galwad i fod yn fugail Penygroes yn Sir Benfro. Teimlai'n anfodlon i dorri ei addewid i Dduw i fynd yno i bregethu, ond ar y llaw arall nid oedd am ddigalonni ei dad. Datryswyd y broblem trwy ailenwi Pentre Siencyn ym Mhenygroes. Dyma enw'r pentref hefyd erbyn hyn.

### Ymestyn yr adeilad

Trwy law W. John Evans, ysgrifennydd gohebol y capel, a fu'n ymchwilio i'w hanes er mwyn ei draddodi ar achlysur dathlu'r cant a hanner yn 1975, daethpwyd ar draws emyn a gyfansoddodd Thomas Jenkins at yr agoriad:

Dyma'r fan i ganu utgorn Peraidd sŵn efengyl gras. Nes cael llw o ddynion eto O'r caethiwed blin i maes.

*parhad ar y dudalen gefn*

# Y Golofn Ryngwladol

## Cysylltiadau

*Fel Annibynwyr, ni welwn unrhyw reswm i ni fod yn ynysig yn ein hymwneud ag eraill; i'r gwrthwyneb, credwn mai eglwysi mewn cymdeithas ag eglwysi eraill ddylai eglwysi Annibynnol fod, ac mai Cristnogion mewn cymdeithas ag ystod eang o Gristnogion eraill, a mwy na hynny, y dylem ninnau fod fel aelodau o'r eglwysi hynny.*

Oherwydd hyn, mae cael cysylltiadau ar draws y byd, pan fo hynny'n bosibl, yn bwysig i ni. Rhydd olwg ehangach i ni ar weithgarwch Duw a'i bobl, a'n diogelu rhag bod yn gyfyng ein gorwelion ac yn anwybodus am yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Rhag i neb feddwl mai dim ond er mwyn cael erthyglau ganddynt y byddwn yn cysylltu â'r rhai sydd wedi cyfrannu i'n colofn ryngwladol hyd yma, dyma gynnwys ychydig eiriau am hynt a helynt ambell un ohonynt. Yr ydym mewn cysylltiad cyson â hwy i gyd.

### Tatamo Andriamoria a Felaniaina (neu Felana) Lantovololona

O bosibl y byddwch yn cofio erthygl amdanynt yn rhifyn Nadolig 2019 o'r *Tyst*. Yr oedd y ddwy wedi dod o Fadagascar i Fangor i astudio ar gyfer graddau Meistr, a chawsom gryn dipyn o'u cwmni yn ystod eu tymor cyntaf. Fodd bynnag, daeth y pandemig i ddrysus'r holl gynlluniau oedd gennym ar eu cyfer, ac wedi i'r flwyddyn academaidd ddod i ben, aeth y ddwy yn ôl i Fadagascar.

Eu sefyllfa erbyn hyn yw fod y ddwy



yn gweithio, ond mae'r pandemig wedi taro Madagascar yn galed ac mae'r adnoddau angenrheidiol sydd ar gael yn brin. Yn ychwanegol at hynny, ysgubodd dwy storm fawr ar draws yr ynys ar ddiwedd Ionawr a dechrau Chwefror eleni gan achosi difrod a cholledion mawr. Yn yr ail storm, colodd cannoedd o filoedd o'r bobl eu cartrefi, ac mae'r llywodraeth, yn ôl Felana, yn gwneud ei gorau i ymdopi â'r sefyllfa, a gofalu amdanynt. Trwy'r cwbl, mae'n dda medru dweud fod y merched yn ddiogel ac iach, ac yn anfon cyfarchion cynnes atom yma yng Nghymru.

### Wayne Matheson, Seland Newydd

Mae Wayne, a anfonodd gyfarchiad Nadolig ar gyfer ein colofn ryngwladol yn 2021, yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Seland Newydd. Er i'r wlad lwyddo i raddau helaeth i reoli'r pandemig pan gyrhaeddodd yno, bu iechyd Wayne yn fregus, a hynny i'r fath raddau fel y bu iddo orfod cael cyfnod o absenoldeb o'i waith. Deallwn ei fod erbyn hyn yn gwella, ac anfonwn ato ein dymuniadau gorau am iachâd buan a llwyr.



### Janet Ka Chung Ng, Hong Kong

Daeth neges yn ddiweddar gan Janet yn erfyn ar i ni ei chofio yn ein gweddïau. Yn dilyn y protestiadau a gafwyd yn Hong Kong beth amser yn ôl, carcharwyd cyfaill iddi dan y Ddeddf Diogelwch



parhad ar y dudalen gefn

## LLYTHYR

Annwyl Olygydd,

Trwy'r sylw a gafodd y mater ar *Newyddion* S4C ddechrau Chwefror eleni, ar Radio Cymru a gwahanol lwyfannau ar y cyfryngau, mae'n ymddangos bod Cymru benbaladr wedi clywed am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddiodeffais ohono wrth i haid o ieuencid di-wardd fy nhargedu ac ymosod ar fy nghartref yn Y Tymbl.

Bu'n gyfnod digon helbulus arnaf a chyda'r ymosodiadau yn amlhau ac yn gwaethygu teimlais fod rheidrydd arnaf i fynd yn gyhoeddus ar y mater, a dyna'r peth gorau ddigwyddodd. Wedi i Aled Scourfield, gohebydd y BBC, fy nghyfweld ac i'r eitem gael ei darlledu aeth y newyddion ar led fel tân gwyllt. Daeth cymuned Y Tymbl yn gyfan i wybod am yr helynt, gan fynegi anfodlonrwydd a dicter gyda'r gweithredu cwbl ddiangen, a bellach mae'r gweithrediadau gwrthgymdeithasol wedi tawelu.

Yn ystod yr helbul cefais fy nghalonogi'n fawr iawn yr un pryd a charwn ddiolch i bobl cymuned Y Tymbl, yn unigolion a sefydliadau, i Alun Lenny cadeirydd pwyllgor Gofalaeth Broydd Myrddin ac aelodau'r ofalaeth, a chyfeillion lu ledled Cymru, fu'n cysylltu â mi ar ôl i fi fynd yn gyhoeddus ar y mater. Gwerthfawrogais bob arwydd o gydymdeimlad a'r gefnogaeth wnaeth gynnal fy ysbryd a'm cryfhau yng nghysgod y drafferth.

Ers penllanw'r ymosodiadau, mae swyddogion Heddlu Dyfed Powys wedi bod o gymorth mawr yn eu gofal ohonof ac yn eu hymchwil i'r mater. Mawr obeithiaf fod y sylw cyhoeddus a gafwyd, y lleisiau cryf yn lleol oherwydd yr hyn ddigwyddodd, ac ymyrraeth yr Heddlu, wedi llwyddo er daioni, ac yn bwysau cymdeithasol i atal yr ieuencid rhag gweithredu yn anghyfrifol fel hyn eto.

Fe'm syfrdanwyd wrth feddwl am rym y wasg a grym cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, a dangosodd y gefnogaeth a gefais gan ffrindiau a thystiolaeth cyfeillion Eglwys Iesu Grist ar ei gorau, bod sefyll gyda'n gilydd yn help i wrthsefyll a gorchfygu drygioni fel hyn mewn cymdeithas. Mawr yw fy niolch.

Yn ddiffuant,

**Parchg Emyr Gwyn Evans**

# Yr Adran Gydenwadol

## Adnoddau newydd ar gyfer y Grawys 2022

### Beth yw ystyr tymor y Grawys?

Y Grawys yw'r cyfnod o chwe wythnos (40 diwrnod heb gynnwys y Suliau) yn arwain at y Pasg, ac mae'n dechrau ar ddydd Mercher y Llundw. Gelwir wythnos olaf y Grawys yn Wythnos Fawr. Yn 2022 mae'r Grawys yn dechrau ddydd Mercher, 2 Mawrth, ac yn dod i ben ddydd Iau, 14 Ebrill.

### Adnoddau newydd ar gyfer y Grawys

Bob blwyddyn, bydd Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn creu cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer chwe wythnos y Grawys. Eleni, mae cysylltiad Cymreig cryf i'r adnoddau hynny gan fod yr adnoddau nid yn unig yn cynnwys darnau o'r Ysgrhythur fel maes trafod, ond hefyd ddeunydd yn seiliedig ar fywyd a gwaith y Santes Gwenffrewi, Treffynnon. Teitl yr adnodd eleni yw 'Dilyn Crist yn ôl traed y saint dan gyfarwyddyd hanes y Santes Gwenffrewi'. Mae'r adnoddau hyn ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan [www.ctbi.org.uk](http://www.ctbi.org.uk).

Mae pob un o'r chwe astudiaeth yn dechrau gyda darnau o'r Beibl, ac eleni fe'n harweinig i gyfeiriad Mathew 6:19-21, Rhufeiniaid 10:11-13, Philipiaid 3:17-4:1, Eseaia 55:4-9, Salm 32:6-11 ac Eseaia 43:19-21. Yna cawn ein tywys yn ddyfnach i hanesion traddodiadol am y Santes Gwenffrewi (er y pwysleisir nad oes raid dilyn y straeon hyn). Mae'r hanesion hyn yn taro tant â llawer thema yn ein byd modern: aflonyddu a gorfodaeth rywiol, camddefnyddio grym, sefyllfa ffydd a'r hawl i ddilyn Iesu, a'r angen yn y dyddiau hyn am wellhad a gobaith.

### Pwy oedd Gwenffrewi?

Tybir mai merch i deulu uchelwrol yn y 7fed ganrif oedd Gwenffrewi, a'i bod yn byw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Roedd Gwenffrewi yn Gristion pybyr, yn awyddus i ddysgu am Iesu a'i ddilyn, dan arweiniad a dysgeidiaeth ei hewythr, Beuno. Oherwydd ei hymrwymiad i'w ffydd, torrwyd pen Gwenffrewi pan geisiodd ddianc rhag Caradog, gŵr o dras uchel oedd wedi bygwth ymosod arni'n rhywiol petai'n gwrthod ei briodi. Yn y fan lle disgynnodd ei phen i'r ddaear, sef Treffynnon bellach, tarddodd ffynnon o ddŵr croyw. Roedd Beuno yn gweddio gerllaw; fe gododd ei phen a'i osod yn ôl ar ei chorff, a'i hadfer i fywyd. Buchedd sanctaidd fu



hanes Gwenffrewi wedi hynny, a daeth yn abades lleiandy Gwytherin, heb fod ymhell o Lanrwst. Dygwyd ei gweddillion o Wytherin i Abaty'r Amwythig ym 1137 er gwaethaf gwrthwynebiad lleol, a chafodd gweddillion Beuno Sant hefyd eu dwyn a'u cludo i'r abaty ymhen amser.

\*\*\*

### Coeden Iesu ac Efengyl Ioan

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair hefyd wedi cynhyrchu cyfres o adnoddau newydd ar gyfer Grawys 2022, sef myfyrdodau 'Coeden Iesu'. Mae'r adnoddau hyn yn ein tywys ar daith ddeugain niwrnod o ddydd Mercher y Llundw hyd at y Pasg, a hynny gan ddilyn naratif Efengyl Ioan. Trwy fynd ar y daith hon drwy'r efengyl, bydd cyfle i ni ddarllen ei holl gynnwys, gan ddilyn cyfres o fyfyrdodau, her y dydd a gweddi ddyddiol dros y deugain niwrnod. Eto, mae'r adnoddau hyn yn rhad ac am ddim, a cheir mynediad atynt drwy ymweld â gwefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com)

Ar gyfer pob un o ddeugain niwrnod y Grawys bydd addurn yn cael ei osod ar 'Goeden Iesu', a fydd yn arwain at fyfyrdod i ysgogi'r meddwl, gweddi fer o ddefosiwn, a gweithgaredd neu her ddyddiol.

### Beth yw 'Coeden Iesu'?

Datblygiad o'r syniad o 'Goeden Jesse' yw 'Coeden Iesu' mewn gwirionedd. Yn

wreiddiol, roedd Coeden Jesse yn dangos hanes proffwydoliaeth ac achau Iesu, a'r disgwyliad amdano yn yr Hen Destament, yn union fel y byddai ein coeden deulu ni. Weithiau roedd gan eglwysy a chadeirlannau ffenestri lliw o Goeden Jesse yn darlunio rhai o'r golygfeydd hynny. Mae Coeden Jesse yn ffordd o fyfrio ar stori Duw a'n rhan ninnau, pobl Dduw, yn y stori honno.

Fe'n gwahoddir i fynd ar daith sy'n llawn gobaith ac addewid, ac yn ein cyfeirio at ffordd a ragfyneodd ddyfodiad y Meseia, y Crist Iesu, i'n byd. Mae 'Coeden Iesu' yn mynd â'r syniad hwn ymhellach, ac yn canolbwyntio ar enedigaeth, bywyd, gweinidogaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Bob diwrnod, cyhoeddir adnoddau a fydd yn cynnwys:

- ar gyfer teuluoedd cyhoeddir her ddyddiol ar dudalen Facebook [Beibl Byw](#), lle cawn ein hannog i gyflawni gweithred o garedigrwydd yn ystod tymor y Grawys – cyfle i feddwl am eraill wrth agosáu at gyfnod y Pasg;
- myfyrdod i'w ddarllen, a gyhoeddir ar dudalen Facebook [Beibl Byw](#);
- testun Efengyl Ioan, fydd yn cael ei rannu ar dudalen Facebook [beibl.net](#);
- gweddi ddyddiol, fydd yn cael ei rhannu ar dudalen Facebook [Gair o Weddi](#).

Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu rhyddhau bob bore am 8 o'r gloch.

Beth am droi atynt bob dydd, gan gymryd y cyfle i'w rhannu ar eich tudalen Facebook chi, er mwyn rhannu'r adnoddau ag eraill?



# Sul Newid Hinsawdd yn gadael gwaddol gwerthfawr



Ar ôl ysgogi miloedd o eglwysi a grwpiau eglwysig ledled Prydain ac Iwerddon i weithredu ar newid hinsawdd yn y cyfnod cyn COP26, mae ymgyrch Sul yr Hinsawdd bellach wedi dod i ben, gan adael gwaddol parhaol o adnoddau gwerthfawr y gall eglwysi eu defnyddio i gymryd camau pellach.

Cymerodd dros 2,300 o eglwysi a grwpiau eglwysig ledled Prydain ac Iwerddon ran ym menter Sul yr Hinsawdd yn y cyfnod cyn COP26, gan fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy gynnal gwasanaethau Sul yr Hinsawdd, ymrwymo i weithredu ymarferol a chodi llais dros gyfiawnder hinsawdd. Mae'r defnydd helaeth hwn o'r fenter ar draws traddodiadau eglwysig amrywiol yn dangos ymrwymiad cynyddol gan eglwysi lleol i weithredu ar newid hinsawdd. Dyma hefyd yr ymateb eciwmenaid mwyaf i'r argyfwng hinsawdd yn y Deyrnas Unedig yn y cyfnod cyn COP26.

Er enghraifft, ym mis Ebrill 2021 gosododd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yr her uchelgeisiol i'r eglwys honno gyrraedd di-garbon net ar draws eglwysi, cadeirlannau, esgobaethau ac ystadau ysgolion erbyn 2030. Bu i Gymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru benderfynu dad-fuddsoddi mewn tanwydd ffosil yn eu cyfarfod yng Nghaerdydd fis Medi diwethaf wrth lansio polisi amgylcheddol oedd yn galw ar eglwysi ac aelodau i roi ystyriaeth i'w heffaith amgylcheddol ym mhopeth a wnaent.

Nawr, cynllun y glymblaid o eglwysi ac asiantaethau Cristnogol a arweiniodd Sul yr Hinsawdd yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros gyfnod yr ymgyrch. Fel rhan o hyn, byddant yn cynnal gwefan ddwyieithog Sul yr Hinsawdd - [www.climatesunday.org](http://www.climatesunday.org) - sy'n dangos sut y gall eglwysi lleol gymryd camau

pellach i warchod natur. Mae ystod eang o adnoddau addoli yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac arweiniad ar sut i barhau i godi llais am yr argyfwng hinsawdd. Bydd y cynlluniau EcoChurch a Live Simply hefyd yn parhau i fod ar gael i eglwysi lleol ymuno â nhw.

Mae Andy Atkins, cyd-gadeirydd Sul yr Hinsawdd a Phrif Weithredwr A Rocha UK, yn esbonio: "Mae'r ymrwymiad i weithredu a ddangoswyd gan filoedd o eglwysi fel rhan o Sul yr Hinsawdd yn ysbrydoledig. Fe ddaw â chynnydd ymarferol ac â gobaith, yn enwedig i bobl ifanc sy'n ysu am weld eu cymunedau eglwysig a gwleidyddion yn ymwneud â'r mater hollbwysig hwn. Bydd yr adnoddau cyfoethog sydd wedi eu llunio gan aelodau'r ymgyrch yn helpu eglwysi lleol i barhau i weithredu'n effeithiol yn 2022 pan fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn llywydd ar COP."

Dyweddodd y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, "Bu ymrwymiad cymaint o eglwysi lleol, enwadau a mudiadau Cristnogol yng Nghymru i Sul yr Hinsawdd yn galonogol, gyda defnydd eang ar y deunydd addoli ac ymgyrchu yn y ddwy iaith. Trwy sicrhau parhad y wefan ddwyieithog, bydd y gwaith a wnaed yn 2020-21 yn dal ar gael i'r eglwysi barhau â'u gwaith yn gwarchod Cread Duw."

Dyma ambell enghraifft yn dangos llwyddiant Sul yr Hinsawdd mewn ystod o wahanol enwadau ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig:

## Eglwys Meadowside St Paul, Dundee, yr Alban

Adeiladodd y bobl ifanc gwch cyfiawnder hinsawdd, *Seas the Day*, a gafodd ei ailgylchu gan blant heddiw o gwch a wnaed flynyddoedd yn ôl gan genhedlaeth flaenorol o bobl ifanc. Tynnwyd y cwch ar droli cartref

wedi'i ailgylchu o Meadowside St Paul, Dundee i St Andrew's ar 31 Hydref. Gosodwyd rhai cychod papur â gweddiau llawysgrifen cynulleidfara eglwys ac addewidion am gyfiawnder hinsawdd yn y gragen fel rhan o'n haddoliad.

## Eglwys Sant Martin ac Eglwys Sant Hilari ym Mhlwyf Cilâ, Abertawe

Yng ngwasanaeth Sul yr Hinsawdd, clywsant am Salote, bachgen saith oed yn byw ar ynys a oedd dan fygythiad gan ystormydd a newyn yn Ne'r Môr Tawel. Cafwyd *montage* gweddi grymus gan gyfranwyr i COP26 a cherdd â'r teitl 'Pe bai'r ddaear yn ddim ond ychydig droedfeddi mewn diamedr'.

Ysgogodd menter Sul yr Hinsawdd gannoedd mwy o eglwysi i ymuno ag un o bedwar cynllun gwyrddio'r eglwysi a oedd yn bodoli eisoes, gan fynd â chyfanswm yr eglwysi a gymerodd ran heibio'r 5,000 yn yr wythnos cyn COP26.

Rhaglenni sy'n seiliedig ar wobrau sy'n arfogi eglwysi i weithredu ar yr amgylchedd, yn eu heglwys a'u cymuned leol, yw'r 'Cynlluniau Gwyrddio'. Cânt eu hannog i wneud hyn trwy addoli a dysgu, lleihau allyriadau carbon, ystyried eu tir a ffyrdd unigolion o fyw, a chodi llais am yr hinsawdd. Mae tri phrif gynllun annibynnol yn y Deyrnas Unedig i helpu eglwysi ar lawr gwlad i fynd i'r afael â newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a materion amgylcheddol dybryd. Bellach, mae 9,248 o eglwysi'r Deyrnas Unedig wedi'u cofrestru ag un o'r cynlluniau hyn.

Eco Church, a gynhelir gan A Rocha UK, yw'r cynllun ar gyfer eglwysi yng Nghymru a Lloegr: <https://ecochurch.arocha.org.uk>.

Mae o leiaf 747 o gynrychiolwyr eglwysi lleol wedi arwyddo'r datganiad 'Nawr yw'r Amser' (gan ymuno â chyfanswm o bron i 200,000 o lofnodwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus). Mae hyn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ei rôl fel Llywydd COP26, i fod yn llawer mwy uchelgeisiol wrth geisio sicrhau toriadau cyflymach a dyfnach mewn allyriadau byd-eang, darparu cyllid sydd wedi ei addo ers amser maith i helpu gwledydd tlotach i addasu i'r amharu sy'n digwydd i'r hinsawdd, ac adferiad economaidd gwyrdd yn dilyn Covid. Gallwch ychwanegu eich enw neu eich eglwys i'r ddeiseb ar: <https://thetimeisnow.uk>.

(Addaswyd o ddatganiad i'r wasg gan Glymblaid Sul yr Hinsawdd, 14 Chwefror 2022)

S4C

### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 27 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ymunwch â ni'r wythnos hon pan fyddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Llundain. Bydd Huw yn clywed hanes rhyfeddol y Cymry alltud ac yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n dal i gynnal ac arddel eu Cymreictod ym mhrifddinas Lloegr heddiw. Daw'r canu mawl o'r Eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, Eastcastle Street, o ddigwyddiad sy'n uchafbwynt blynyddol i Gymry Llundain, sef Cymanfa Undebol Capeli Cymraeg Llundain.

Gallwch weld cylchlythyr mis Chwefror *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* drwy ddilyn y ddolen hon: [Dechrau Canu Dechrau Canmol](#)

BBC radio cymru

### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 27 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Y gyntaf mewn cyfres newydd lle bydd R. Alun Evans yn cyflwyno rhaglenni ar amrywiol themâu. Gwladgarwch sydd dan sylw heddiw yn ystod wythnos Gŵyl Ddewi.

### Oedfa Radio Cymru

Sul, 27 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Jim Clarke, Llanfair-pwll

# Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

*Dyma'r olaf yn y gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars gan David Kerrigan.*

## Heddwch 16 Rhoi theori ar waith

### Gair personol

**Darllen:** Numeri 6:22-7

**Bydded i'r ARGLWYDD dy fendithio a'th gadw;**

**Bydded i'r ARGLWYDD lewyrchu ei wyneb arnat, a bod yn drugarog wrthyt;**

**Bydded i'r ARGLWYDD edrych arnat, a rhoi iti heddwch. (adn. 24-6)**

Heddiw, down â'n hymchwiliad i heddwch Duw i ben; eto, yn naturiol, mae cymaint mwy y gellid ei ddweud. Ond wrth inni ddod at ben y dalar, fe hoffwn iti fod yn camu i'r ochr yn dy feddwl am ychydig a chymryd agwedd wahanol i'r un arferol yn ein hastudiaethau. Dychmyga dy fod wedi eistedd i lawr mewn cadair gyfforddus wrth ffenestr fawr, a bod yr haul yn tywynnu drwyddi. Dydy hi ddim yn ddiwrnod poeth, ond yn un o'r dyddiau hynny pan mae modd sylwi ar wres yr haul a'i groesawu. Mae'r tŷ yn dawel, ac mae'r rhain yn teimlo fel 15 munud gwerthfawr i ti dy hun. Mwynha nhw!

### Bydded i'r Arglwydd dy fendithio

Mae Duw'n awyddus iti wybod dy fod yn cael dy garu'n fawr ganddo: y math o gariad sy'n brifo pan fyddi di ar wahân i'r person yr wyt yn ei garu, y math o gariad sy'n achosi i'th galon roi tro pan fyddi di'n ei weld ef neu hi eto. Mae bod dan fendith yn golygu profi drwy ffydd yr hyn a olyga i fod yn blentyn i Dduw. Gwybod am ei faddeuant, ei ras a'i dderbyniad. Ond mae hefyd yn golygu bod â'r cyfan sydd ei angen arnom mewn bywyd. Cyfeiria at ein bwyd a'n diod, ein diogelwch – y pethau hynny a gymerwn yn ganiataol, efallai, gan ein bod wedi eu datgysylltu oddi wrth y ddealltwriaeth mai trwy greadigaeth Duw y mae'r pethau hyn yn cael eu rhoi inni.

Rho ddiolch am y bendithion hyn.

### Bydded i'r Arglwydd dy gadw

Beth bynnag fydd yn digwydd iti, p'un a ydy bywyd yn dod i'w le fel yr oeddet ti wedi gobeithio neu beidio, yr wyt yn eiddo iddo ef trwy ffydd, hyd byth. Ni all un dim dy gymryd oddi wrtho. Yr wyt yn sicr ynddo ef hyd dragwyddoldeb. Rwynt yn blentyn wedi dy greu a'th fabwysiadu ganddo, ac etifeddiaeth gennynt na elli byth ei cholli.

Clod iddo am y rodd rasol hon.

### Bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat

Dyma lle y gall pelydrau'r haul ein helpu, oherwydd fe fyddwch yn gwybod bod y Beibl yn dweud bod Duw yn trigo mewn

goleuni anchwiliadwy. Elli di ddim mynd yn agos at Dduw, ond gall Duw hysbysu ei hun i ti. Fe wnaeth hynny yng Nghrist, goleuni'r byd, ac mae ei wyneb wedi ei droi tuag atat. Delwedd ydyw, wrth gwrs, ond un rymus iawn. Mae Duw o'th blaid; mae Duw yn dy gornel di. Mae'n galw o ymyl y cae i'th annog, yn falch ohonot.

Treulia ennyd yn dweud wrtho sut mae hyn yn teimlo.

### Bydded i'r Arglwydd fod yn drugarog wrthyt

le, dyna ni – gras. Hebdo, mae hi wedi darfod amdanom. Rydym wedi methu'r prawf, wedi syrthio'n brin o'r nod, wedi methu'r targed. Ond mae gras yn edrych heibio i hyn i gyd; neu, yn hytrach, yn cywiro hyn i gyd. Gras sy'n rhoi medal yr enillydd am dy wddf ac yn dy arwisgo â choron o gyfiawnder. Sut y gall hyn fod? Mae'n syml yn wir. Cymerodd Iesu dy le di a minnau. Cymerodd yr hyn oedd i ddod i ni. Sugnodd y gwenwyn i gyd yn ddi-gŵyn. Ac os bu'n rasol unwaith, fe fydd yn rasol bob amser. Ble wyt ti arni heddiw?

Gofyn iddo am ras yn ôl y dydd i wynebu'r heriau o'th flaen heddiw.

### Bydded i'r Arglwydd edrych arnat

Yma mae gennym esiampl o gyfatebiaeth Hebreig, yn dweud yr un peth ddwywaith ond yn defnyddio geiriau gwahanol – fel 'Eiddo'r ARGLWYDD yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (Salm 24:1, BCND). Mae rhywfaint o hynny yma, ond yn aml fe geir rhyw ddatgeliad pellach oherwydd y dewis o eiriau gwahanol. Yma, fe gawn ein hannog i weld bod y wedd – yr olwg sydd ar yr wyneb a droir i edrych arnom – yn un i'w chroesawu ac nid i'w hofni. Mae yna wên ar wyneb Duw wrth iddo weld yr union berson yr wyt ti'n ei weld pan fyddi'n edrych yn y drych. Ond pan fyddi'n edrych yn y drych, mae'n debyg dy fod yn feirniad llymach na Duw. Yr wyt ti'n edrych ac yn gwingo; y mae ef yn edrych ac yn goleuo. Yr wyt ti'n edrych ac mae cywilydd arnat; y mae ef yn edrych arnat gyda balchder. Edrychi di a meddwl, 'Beth os?'; edrych ef a meddwl, 'Pam lai?'

Treulia ennyd yn ddweud wrtho sut rwynt ti'n teimlo.

### Bydded i'r Arglwydd roi iti heddwch, shalom

Mae Duw am iti wybod am y bodlonrwydd tawel hwnnw sy'n dod o wybod y bydd popeth yn iawn. Alla i ddim dweud, 'mae popeth yn iawn', oherwydd fyddet ti ddim

yn fy nghredu. Fe fyddet ti'n gwrthod gwrandao arnaf, ac fe fyddet ti'n iawn. Byddai dweud bod popeth yn iawn yn gwneud sbort o'r byd a'i bobl, y rhai sy'n ymdrechu i oroesi ac sydd wedi gorfod cario mwy na'u siâr o ddiodeff, o ddiffyg anrhydedd, cywilydd a siom. Mae gwybod amdanynt yn dy wneud di a minnau'n anesmwyth, ac eto mae Duw am iti wybod bod shalom ar ddod. Fe'i henillwyd eisoes ar gost fawr, ac y mae'n dod. Does dim modd ei stopio. Does dim modd dweud yn iawn amdano. Does dim modd ei ddeall yn iawn. Yn wir, os gweli fod yn dda, dos heddiw yn enw ac yn nerth yr Arglwydd i roi mynegiant iddo – dyro fwyd i'r newynog, dillada'r noeth, dyro ddŵr i'r sychedig ac ymweld â'r carcharor. Dos hefyd â phryd o fwyd at gymydog gwael, cynigia warchod i riant sengl ar ben ei thennyn, dyro rodd hael i rywun rwynt ti'n ei adnabod sydd mewn angen.

Cymer amser i ystyried sut y gelli di rannu heddwch Duw efo rhywun heddiw.

Bydd yn dangnefeddwr.



## EGLWYS BRESBYTERIAIDD CYMRU Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau

### Cynorthwydd gweinidogaethol Plant, Ieuencid a Theuluoedd yr ofalaeth

Mae Gofalaeth Bresbyteriaidd Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio yn ei thair eglwys a datblygu'r gwaith ymhellach.

- Oriau: 35 awr yr wythnos (neu oriau i'w trafod)
- Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
- Cyflog: Graddfa 26-30 (£25,913-£28,049) ynghyd â lwfans tŷ o £3,000 a chyfle i ymuno â phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirada boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:  
e-bost – Mr Hedd Morgan,  
[hedd@ebcpcw.cymru](mailto:hedd@ebcpcw.cymru); ffôn: 07815960439

#### Dyddiad cau:

28 Chwefror 2022 am 4 o'r gloch  
Dyddiad y Cyfweliad:  
8 Mawrth 2022 ym Mangor

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Normal Newydd

Mae'r ddwy flynedd olaf yma 'ma wedi creu anrhefn o drefn mewn ambell i eglwys, a threfn o anrhefn mewn ambell eglwys arall wrth i ni frwydro drwy'r pandemig.



Gwelwyd gwerth a chryfdrer technoleg a ganiataodd i nifer o arweinwyr ein eglwysi i fwydo a chynnal eu cynulleidfaoed. I eraill, bu'r dechnoleg yn 'fwgan', ac yn rheswm dros gau'r cyfan i lawr ... am y tro medden nhw. Dywed rhai na wna ambell eglwys ac ysgol Sul ailgychwyn, fel tase'r cyfnod wedi bod y rheswm hirddisgwyliedig dros gau a chladdu'r 'achos' a'r gweithgaredd. Sylwer i sawl eglwys gladdu ysgol Sul oedolion, cyrddau gweddi, cymdeithasau a.y.b. ers tro byd!

Yn nyddie cynnar y 'clo', fe'm calonogwyd i'n bersonol gan ddwy ddogfen a gynhyrchwyd gan yr URC (Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig). Hoffwn aros gyda un rhan o'r ail ddogfen, sef; *Emerging into the 'new normal'*, proses mae nifer o eglwysi eisoes wedi cychwyn arni, er i ambell un ddychwelyd i gysur a diogelwch y hen 'normal', mwy neu lai ar un waith!

### Trafod

Yr adran dw i am aros gyda hi yw, 'I'w drafod: Beth fydd y "normal newydd" i'ch eglwys chi?' Y cwestiwn pryfoclyd cyntaf yw, 'A oes angen adeilad eglwys o hyd?' Adeiladau ydynt sy'n sugno amser ac adnoddau dynol gan fod cymaint o waith cynnal a chadw arnynt, ynghyd â'r gost o'u cynhesu. Pam na fentwrn logi adeilad arall yn y gymuned sy'n fwy cyfforddus a deniadol o lawer nag eistedd mewn un oer a llaith?

### Addoliad

Gofyn wedyn, 'Beth fydd natur yr addoliad?' Fel di ni'n gweld, dydi'r drefn ddim nôl yn normal eto. Rhaid wrth fwgwd a chadw pellter diogel ac ati. Cofiwn i'r nifer a fynychent le o addoliad leihau'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r 'clo' wedi cyflymu'r lleihau! Yr un yw'r 'fwydlen' a bron yn yr union drefn: gweddi, emyn,

darlleniad, emyn arall neu weddi, emyn eto ... anerchiad, emyn a'r weddi i gloi ... o, ie, a'r cyhoeddiadau pwysig 'na hefyd! Da nodi bod nifer o eglwysi a drodd at y cyfryngau rhithiol yn ystod y clo yn dal i'w defnyddio. Golyga hyn bod cynnydd yn nifer y bobol sy'n mynychu'r eglwys rithiol erbyn hyn, mwy na sy'n mynychu ambell adeilad i addoli!

### Addasu

O ailgychwyn, tybed a oes yna bethau y byddwn ni'n medru eu gadael ar ôl yn 'normal' y gorffennol? Gyda chymaint o ddigwyddiadau eraill yn cael eu cynnal ar y Sul, pam na all yr eglwys leol gynnal ei phrif addoliad ar amser gwahanol, gyda'r nos yn ystod yr wythnos neu ar y Sul? Beth sydd mor gysegredig am oriau'r Sul, yn fwy nag oriau unrhyw ddiwrnod arall tybed? Dyna lle y gall Zoom, Facebook, Skype a 'Church Online'

[churchonlineplatform.com](http://churchonlineplatform.com) fod o gymorth wrth i ni feddwl am ddulliau newydd ac o bosib, dulliau llawer mwy effeithiol o fod yn eglwys rymus i Iesu yn y byd ag sydd ohono. A ninnau wedi cerdded dwy ddegawd i'r ganrif newydd yma, onid yw'n amser i ni fod yn hollol onest â'n hunain ac â'n gilydd a chyfaddef fod yr 'hen normal' a ninnau, wedi methu'r dystiolaeth Gristnogol, 'All we have taught them is how to teach themselves; and what we have sought to instil in them is not complacency, but a habit of self-reflection and self-criticism, so that every day for the rest of their lives they will ask, What am I doing? How am I doing it? And how could I do it better?'



ac wedi methu yn ein cyflwyniad o'r 'weinidogaeth' yn ein cymunedau?

### Cymunedau

A! Ie, ein 'cymunedau'. A ddywedodd unrhyw un y tu allan i deulu ein eglwys ni iddynt weld eisiau drysau'n capeli ni'n agor ar y Suliau gydol y clo? Fawr neb dybiwn i, ag eithrio'r selogion! Beth am weddill ein cymunedau? Ydyn ni wedi dysgu unrhywbeth am eu gofynion hwy gydol amser y 'clo' tybed? A fu yna ymgom rhyngom 'ni a nhw' ... neu 'nhw a ni'? Os na fu yna siarad, sut felly y medrwn ni gychwyn trafodaeth â'n cymunedau i weld a deall beth yw eu gofynion a'u disgwyliadau hwy o'r eglwys, yn eu cymuned? Mwy am hyn rhywbryd eto efallai.

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

Tom Evans

## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cyrsgiau'r Gwanwyn

**Darllen, deall a dehongli  
Gair Duw heddiw**

**Astudio'r Beibl yn ein  
cyd-destun ni**

**7 o'r gloch, nos Lun 7 Mawrth -  
Testament Newydd y Beibl  
CATRIN HAF WILLIAMS,  
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau  
Crefyddol, PCYDDES**

**Dirnad a datblygu doniau yn  
ein heglwysi**

**7 o'r gloch, nos Lun 14 Mawrth  
BETI-WYN JAMES, Caerfyrddin**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth  
ALUN TUDUR, Caerdydd**

**CWRS DEHONGLI'R  
YSGRYTHURAU  
Yr Actau a'r Epistolau**

**7.00 pob nos Fercher,  
2 Mawrth – 23 Mawrth  
ALED JONES, Cyfarwyddwr a  
Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg**

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni  
Zoom oddi wrth  
[aled@colegyrannibynwyr.cymru](mailto:aled@colegyrannibynwyr.cymru)

## Barn Annibynnol

### Lle 'sa Iesu Grist yn siopa?

Dyma chi gwestiwn da yn ystod Pythefnos

Masnach Deg 2022 (22 Chwefror – 6 Mawrth),

pythefnos sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder, yr hinsawdd a'r heriau sy'n wynebu ffermwyr a gweithwyr ar draws y byd oherwydd newid hinsawdd.

Credaf pe bai Iesu'n creu'r economi, byddai'n seiliedig ar gariad a hunanberth, yn ein cymell i gymryd penderfyniadau gofalgwr a moesol am ein siopa bob dydd. Ond nid yw masnach deg hyd yn oed yn gofyn am hunanberth; mae'n gofyn i ni barchu pobl, ein bod ni'n dangos yr urddas iddynt o gael tâl iawn am werth eu gwaith.

Chwilio am y logo mae'n debyg fyddai Iesu, petasai ar y stryd fawr, ond mi fedrai weld hefyd o grwydro marchnad y ffermwyr a'r fore Sadwrn.

Mae masnach deg yn gallu newid bywyd i grefftwyr tlawd gan olygu bod gan eu teuluoedd incwm cynaliadwy ac arian go iawn.

### Beth felly am ein cyfrifoldeb ni?

Fel Cristnogion dylem ystyried o ddifri ein cyfrifoldeb i rymuso eraill yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf yma yn benodol o gwmpas ein harferion siopa. Dim tosturio a mynegi rhyw eiriau gwag tocenistaidd achos dyna be sy'n ffasiynol, ond meddwl go iawn sut allwn ni gefnogi eraill i gefnogi eu hunain mewn modd cynaliadwy. Dydi'r pandemig ddim wedi helpu ac yn sgil hynny daeth Amazon a'r dyn parseli yn rhan o fywyd bob teulu dwi'n siŵr, mae'r byd wedi newid dipyn. Beth am drïo ailosod y cloc trwy fynd yn ôl i siopa'n lleol a siopa'n deg? Fedrwn ni feddwl hyd yn oed prynu tri pheth masnach deg ella? Mae coffi, siocled a bananas yn gychwyn, dydi?

Wyddoch chi, mae 25 miliwn o weithwyr yn dibynnu ar y diwydiant cynhyrchu coffi. Cofiwch pan 'dach chi yfed eich paned coffi nesa pwy 'dach chi'n cefnogi.

### Mae masnach annheg yn arwain at anobaith

Mae tldi yn cynhyrchu anobaith. Mae anobaith yn cynhyrchu ecsplotaeth. Mae cam-fanteisio yn cynhyrchu dioddefaint. Mae dioddefaint yn cynhyrchu anobaith. Cylch anobaith y gallwn ni fod yn rhan o'i dorri.

Nid anobaith a thlodi yw cynllun Duw. Mae'r Beibl yn dweud yn glir wrthym ni



y dylem ymyrryd i gadw pobl rhag mynd yn anobeithiol a chael eu hecsbloetio. 'Os ydi un o'ch pobl yn colli popeth ac yn methu cynnal ei hun, rhaid i chi ei helpu, yn union fel y byddech chi'n gofalu am ddieithryn neu ymwelydd.' (Lef.25:35).

### Mae masnach deg yn gwarantu cyflogau ac amodau gwaith teg

Mae talu'n brydlon a theg yn hollbwysig i fywydau'r rhai a llai fod yn mynd heb fwyd, cysgod, dillad neu urddas, oherwydd eu tldi. Mae Duw yn gofyn i ni roddi i'r gweithiwr 'ei gyflog ar ei ddiwrnod cyn machlud haul, canys tlawd yw efe ac y mae yn gosod ei galon arno; fel na fydd yn llefain yn dy erbyn ar yr Arglwydd, ac fe ddaw yn bechod ynot ti.' (Deut. 24:15)

### Masnach deg yn adfer urddas

Mae masnach deg yn adfer urddas wrth i fenywod gael eu rhyddhau rhag gorfod puteinio, teuluoedd yn medru aros gyda'i gilydd oherwydd nad oes angen gwerthu plentyn bellach. Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn cael addysg fel y gallant ddewis dyfodol gwahanol, a thrawsnewid cymunedau lle mae pobl am y tro cyntaf yn cael addysg ac incwm y gallant ddibynnu arno. Mae masnach deg yn rhoi gobaith am fywyd gwell ac yn adfer yr urddas a fwiadwyd gan Dduw i bawb. 'Y mae'n codi'r tlawd o'r llwch ac yn codi'r anghenus o'r domen ludw.' (Salm. 113:7)

### Mae adfer urddas yn anrhydeddu Duw

Mae angen parch at anghenion y gweithiwr difreintiedig oherwydd pwy yw ein Duw ni. Y mae'r un sy'n gorthrymu'r tlawd yn gwatwar ei Wneuthurwr, ond y mae'r un sy'n drugarog i'r anghenus yn ei anrhydeddu.' (Diar. 14:31)

### Be fedrwn ni wneud rŵan i sicrhau gwell yfory?

Bod yn siopwr masnach deg deallus. Dydi o ddim jest am y logo. Trwy gefnogi masnach deg gyda'n penderfyniadau prynu, byddwch yn helpu cymunedau yn lleol ac ym mhedwar ban byd i fyw bywyd tecach. Ystyriwch ffordd newydd o weld y cynhyrchion rydych chi'n eu prynu a manteisio ar y cyfleoedd o'ch cwmpas i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Yn gymaint iti estyn llaw i'th god a noddi'r gwaith a wneir mewn estron wlad i wella cyflwr ac i adfer nerth, a dwyn y gobaith am gael gwir iachâd, fe'i gwnaethost, do, i'r Un sy'n Arglwydd nef, a phrofi wnei o rin ei fendith ef.

Peter M. Thomas (Caneuon Ffydd 854)

### Elen Vaughan

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gan ein bod ni parhau i fod mewn cyfnod gwahanol i'r arfer, eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

## Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.'

Salm 95:1

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

## Cyfarfodydd Blynyddol Caerfyrddin Gorff. 7 – 9

Y mae'n llawenydd datgan bod y paratodau ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol eleni, yn mynd rhagddynt yn dda ac yr ydym eisoes mewn dyled i gyfeillion caredig Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin am eu hymrwymiad i'r dasg o drefnu. Diolch.

Gobeithio y bydd effeithiau'r pandemig wedi pylu erbyn yr haf gan ein gadael ninnau'n rhydd i fynd a dod fel y dymunwn.

### Penderfyniadau

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **dydd Gwener, 20 Mai 2022, fan bellaf.**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**  
 Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## CAU'R CAPEL OND YR ACHOS YN PARHAU - parhad

Iesu, dangos rhwng y muriau  
 Wedd dy wyneb hyfryd llon,  
 Tra bo'r olaf o dy bobl  
 Yma'n disgwyl ger dy fron.

Bryd hynny, ac yn amser ehangu'r capel, nid oedd rheolau cynllunio ac adeiladu. Felly codwyd y capel a'i ymestyn ar lawr o bridd a glo, heb ystyried tamprwydd, a oedd yn bwysig, o feddwl am enwau tiroedd o'i gwmpas – Gorslas, Gorsgoch a Gorsddu. Ganrif a mwy wedi'r diwygiad mawr yn 1904, sef y cyfnod pan dyfodd y capel dan ei ddylanwad, cilio mae ein cynulleidfaoedd. Gellir rhoi aelodau'r holl gapeli lleol – Capel Penygroes, (Capel y Sgwâr yn lleol); Mynydd Seion, hefyd yn Annibynnol; Jerusalem, Methodistiaid Calfinaidd; Calfaria, Bedyddwyr; Misiwn Gerrig, sydd yn gapel Efengylaidd Saesneg hyfwrw a gweithgar; Y Deml Apostolaidd, cartref gwreiddiol yr enwad fyd eang – i gyd o fewn muriau capel Penygroes ac fe fyddai seddi gweigion yn dal i fod. Wrth gwrs, yn nyddiau'r diwygiad nid oedd na radio, na theledu, na unrhyw sôn am gyfryngau cymdeithasol, y capel oedd y gymdeithas.

Canlyniad hyn oll yw mai dim ond ar y Sul am un oedfa yr agorwyd y capel mawr hwn. Roedd yn hynod ddrud i'w gynhesu ac yn wael i'r ieuchyd oherwydd y tamprwydd a'r sych-bydredd. Oherwydd patrwm mewnol y capel gyda phulpud, sedd fawr, a meinciau mawr wedi gosod, nid yw'n hawdd iawn addasu'r lle i weithgareddau eraill. Rhaid oedd symud i gartref mwy diddos.

### Bywyd newydd!

Yn 2008 aeth Dai Thomas, yr unig ddiagon gwryw, a'i wraig Siân Thomas, cynghorydd sir y pentref ar y pryd, i holi Menter Cwm Gwendraeth am y posibilïadau o gael grantiau i wella'r festri. Y cyngor gafwyd oedd, na fyddai modd cael grant adnewyddu adeilad oedd ond yn cael ei agor am rai oriau ar y Sul. Yr ateb oedd cynnal mwy o ddigwyddiadau yno. Sefydlwyd cymdeithas hanes lewyrchus iawn, ond sydd erbyn hyn wedi symud i neuadd goffa'r pentref oherwydd cyfleustra i'r anabl ac ar gyfer parcio. Yno fe welir arddangosfa ddiddorol iawn am hanes y pentref. Fodd bynnag fe lwyddodd y syniad. Cafwyd llw o grantiau gan gynnwys un o £26,000 gan y cwmni



*Olive yn trosglwyddo'r allwedd i Dan y datblygwr*

Gwyddelig sydd piau'r melinau gwynt sy'n troelli ar ein gorwel.

Erbyn hyn mae'r festri ar ei newydd wedd yn ddiddos a phwrpasol iawn, gyda phawb sy'n dod yno yn rhyfeddu ei fod mor dlws a modern. Felly er cloi a gwerthu'r hen gapel mawr i Dan, y datblygwr, sydd yn bwriadu ei droi'n fflatiau; nid yw'r achos yn dioddef. Dal i ffynnu mae eglwys Annibynnol Penygroes. Cloi ond nid cau.

## Y Golofn Ryngwladol – parhad

Cenedlaethol y bu cymaint yn Hong Kong yn ei gwrthwynebu, ac y mae nawr yn disgwyl am ddyfarniad llys fydd, mae'n debyg, yn arwain at garchariad pellach.

Ar yr un pryd, mae Janet hefyd wedi penderfynu mynd i'r weinidogaeth ac yn cyflwyno cais am le ar gwrs coleg diwinyddol. Dymunwn fendith Duw arni, a nerth arbennig wrth iddi hi a'i chydaelodau yn yr eglwys geisio ymdopi â'r sefyllfa wleidyddol y maent ynddi.

### Elvis Sa Do, Myanmar

Daeth neges oddi wrth Elvis yn dweud fod Myanmar yn wynebu rhyfel cartref a bod ymladd a lladd yn digwydd ar hyd a lled y wlad. Mae'r ardal o Yangon y mae



ef yn byw ynddi dan Ddeddf Filwrol ar hyn o bryd, ac y mae miloedd o bobl y wlad yn symud i wersylloedd ffoaduriaid

ar y ffin ag India. Mae'n sefyllfa feryglus ac y mae ansicrwydd, sialensau a bygythiadau o bob math yn pwysu'n drwm ar Elvis, ei deulu a'r gymuned y mae'n perthyn iddi.

Oherwydd hynny, mae'n gofyn i ni gofio yn ein gweddïau amdano ef a'i deulu, am y weinidogaeth y mae'n ceisio ei chyflawni mewn amgylchiadau anodd, ac am Myanmar fel gwlad wrth iddi gael ei rhwygo gan ymladd chwerw. Ni allwn lai na gwneud yn union hynny.

\*

Dyna hanes a sefyllfa rhai o'r cyfeillion fu'n cyfrannu i'r *Tyst* yn ddiweddar. Nid dieithriaid mohonynt, ond chwiorydd a brodyr i ni yn y ffydd. Oherwydd hynny, cofiwn amdanynt a gweddïwn dros bob un ohonynt.

**Geraint Tudur**